# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 6ed o Chwefror 2025 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Festri Capel Pencaenewydd a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. **Yn bresennol** y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans (Cadeirydd), Sian Angharad Parry, Anwen Jones, Euros Jones, Angela Williams, Gareth O. Davies, Aled Davies, Delyth Parry, Tegid Jones, Darren Morley a'r Clerc.
2. **Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Dylan Thomas, Rhys Tudur, Dewi Thomas a Miriam Williams.

3. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 9fed o Ionawr 2025.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Ionawr 2025.**

4. **Datgan buddiant personol** –
Cynghorydd Angela Williams, eitem 13-pris peintio mainc cae chwarae-cyswllt â'r person oedd yn cynnig pris.

Cynghorwyr Aled Davies ac Aled Evans - Eitem 17 (c ) Cais am gymorth ariannol Mynwent Chwilog – aelodau o bwyllgor y fynwent.
Cynghorwyr Sian Parry, Gareth Davies, Anwen Jones a Darren Morley – Eitem 17 (b) Cais am gymorth ariannol Mynwent Llanystumdwy – aelodau o bwyllgor y fynwent.
Cynghorydd Darren Morley – Eitem 17(ff) Cais ariannol Clwb Snwcer, Chwilog ac eitem 17 (d), Clwb Peldroed Llanystumdwy – cysylltiedig â'r ddau Glwb.

5. **Cyfeillion Llŷn**- ebost yn rhoi gwahoddiad i ymuno hefo Cynghorau Cymuned a Thref er mwyn gweithio tuag at y nod o warchod a chynyddu niferoedd siaradwyr, aelwydydd a defnydd o'r Gymraeg.

Mae Cyngor Cymuned Llanystumdwy eisioes wedi mabwysiadu'r Polisi Iaith, ac wedi dynodi'r Cyngor fel ardal o arwyddocâd ieithyddol.

6. **Sefydlu Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mangor** - cais gan Sian Gwenllian AS Senedd Cymru, yn gofyn am gefnogaeth. **Cytuno i gefnogi.**

**Materion gan Cyngor Gwynedd**

7. **Ceisiadau cynllunio sydd angen penderfyniad:-**

a) Cais rhif: C24/1082/41/LL - **Mur Clwt Lloer, Chwilog**: Storfa tail sych arfaethedig. **Cefnogi**.

b) Cais rhif: C24/1084/41/LL - **Y Glyn, Llanystumdwy:** Morlyn biswail arfaethedig. **Cefnogi**

c) Cais rhif: C25/0010/41/LL - **9, Hafan Y Môr, Chwilog**:
Adeiladu seilwaith ategol i ddarparu 9 carafan sefydlog ychwanegol yn ardal 'Parklands' (Ardal 12) ym Hafan y Môr, i alinio nifer y carafanau sydd wedi'u lleoli ar y safle gyda'r

caniatâd presennol am 1,324 o unedau, fel yr amodwyd yng nghaniatâd cynllunio cyf C23/0250/40/LL dyddiedig Mai 2023. **Dim sylw.**

ch) Cais rhif: C25/0047/41/DT - **3 Troed Y Garn, Llangybi:** Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer 5kW yng nghefn yr eiddo. **Cefnogi**

8. **Sedd wag yn Ward Llanarmon – trafod mis nesaf**.

**Materion yn y gymuned**.

9. **Llanystumdwy**

a) **Gwterydd yn ymyl Tŷ Newydd** angen ei glanhau – Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.
**b)** **Caerffynnon, Llanystumdwy** – cais gan un o'r pentrefwyr i ofyn am bin halen melyn ar yr allt, oherwydd ei bod yn llithrig iawn yno pan mae'n rhewi. **Clerc i holi Cyngor Gwynedd.**

10. **Rhoslan/Ynys**
**Chwilog i Melin Llecheiddior ac o gyffordd Capel y Beirdd i lawr dros y bont i fyny i Fron Olau Rhoslan**. Trigolion yn cwyno am gyflwr y lon, y ffosydd wedi cau ac yn llawn o bydredd dail coed ac ati, ac angen ei agor a'u glanhau i ddwr gwyneb y lon fynd i rywle yn enwedig o groesffordd Ysgubor Fawr ar hyd y ffordd i Felin Llecheiddior.

Mae angen yr un sylw i'r ffosydd ar y ffordd o Fron Olau i Bont Bryn Beddau, ac yma mae cyflwr gwyneb y ffordd angen sylw yma gan fod difrod mawr wedi ei wneud gan lifogydd y gaeaf. Mae y tro i fyny o'r bont am Rhoslan yn ddrwg iawn. Mae'n beryg cael difrod i gerbyd yma, yn y tyllau gan fod wyneb ochor y ffordd wedi mynd yn llwyr efo'r dwr. **Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.**

11. **Chwilog**
a) **Ty'n Lon, Plas Hen, cyn cyrraedd Betws Fawr, Chwilog**- coeden fythwyrdd fawr yn yr ardd yn gogwyddo (ers storm Darragh) ar draws y ffordd ag yn pwyso ar goeden yn y clawdd yr ochr arall. **Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.**

b) **Lon Plas ac hefyd y llwybr (sydd yn rhan o'r cae) o Bont Pandy i gyferiad y Lon Goed** – mae llawer o faw ci yno. **Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.**

c) **Lon rhwng Pont Pandy a mynedfa'r Lon Goed** angen ei glanhau hefo peiriant glanhau lon. **Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.**

12. **Pencaenewydd/Sardis**

13. **Llangybi**
**Cae chwarae Llangybi** – wedi derbyn pris i ail beintio a thacluso'r fainc a chytuno i'w dderbyn, a gofyn wrth Mr Gareth Jones wneud y gwaith.

14. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.01.2025. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

15. **<u>Taliadau</u>** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| SLCC (MEM252763-1) | Tâl aelodaeth (01.03.2025-01.03.2026 | **<u>150.00</u>** | | **<u>150.00</u>** | **<u>150.00</u>** |
| Archwilio Cymru | Archwilio 2023-2024 (ARINV/012351) | **<u>200.00</u>** | | **<u>200.00</u>** | **<u>200.00</u>** |
| Cyswllt Wifi Neuadd Chwilog | Taliad rhwng 01.01.2024 – 31.12.2024 'Plusnet' | **<u>330.33</u>** | | **<u>330.33</u>** | **<u>330.33</u>** |
| ** *Cyswllt Wifi Capel Pencaenewydd* | *Taliad rhwng 01.01.2024 – 31.12.2024 BT(3x£47.94=£143.82 a 9x£51.73=£465.57* | ***<u>609.39</u>*** | | ***<u>609.39</u>*** | ***<u>609.39</u>*** |

16. Cyflog mis Ionawr 2025 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Ionawr 2025 35 awr y mis x £17.79 = £622.65 | 622.65 Llai treth- £124.60 = **<u>£498.05</u>** | **<u>498.05</u>** | **<u>498.05</u>** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Ionawr 2025 £623.00 x 20% = £124.60 | **<u>£124.60</u>** | **<u>124.60</u>** | **<u>124.60</u>** |
| Costau swyddfa Clerc Ionawr 2025 | **<u>26.00</u>** | **<u>26.00</u>** | **<u>26.00</u>** |

17.**<u>CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL</u>** gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor – hysbyseb wedi cael ei roi yn rhifyn mis Tachwedd a Rhagfyr 2024 o'r Ffynnon ac ar yr hysbysfyrddau a'r wefan gyda dyddiad cau 15fed Ionawr 2025.

| **<u>17.</u>** | **<u>2025 – Derbyniwyd 13 cais gan:-</u>** | **£** | **Cynghorwyr yn ymneilltuo oherwydd datgan diddordeb** |
|---|---|---|---|
| (a). | Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi | 500.00 | Neb |
| (b). | Mynwent Newydd Llanystumdwy | 1000.00 | Cynghorwyr Darren Morley, Gareth Roberts, Sian Angharad Parry, Tegid Jones ac Anwen Jones |
| (c ) | Mynwent Capel Helyg, Llangybi | 500.00 | Neb |
| (ch) | Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog | 1000.00 | Cynghorwyr Aled Lloyd Evans ac Aled Davies |
| (d) | Clwb Peldroed Llanystumdwy | 500.00 | Darren Morley |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (dd) | Neuadd Goffa Chwilog | 1000.00 | Neb |
| (e) | Cylch Meithrin Llangybi | 1000.00 | Neb |
| (f) | Eisteddfod Gadeiriol Chwilog | 500.00 | Neb |
| (ff) | Clwb Snwcer Chwilog- (ond mae angen cael cyfrifon erbyn ein cyfarfod nesaf cyn ei dalu) | 200.00 | Cynghorydd Darren Morley |
| (g) | Elusen Ambiwlans Awyr Cymru | 100.00 | Neb |
| (ng) | Urdd Gobaith Cymru Rhanbarth Eryri | 50.00 | Neb |
| (h) | Theatr Bara Caws | 100.00 | Neb |
| (i) | Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Dur a Mór, Parc Margam 2025 | 50.00 | Neb |

**Materion hwyr**

**18. Wifi Capel Pencaenewydd** (**) – derbyniwyd manylion y biliau ar 03.02.2025 a cytunwyd i dalu'r swm yn dilyn y cyfarfod – gweler manylion uchod.

**19. Cais cynllunio 25/0024/41/DT Yr Hen Efail, Rhoslan** – estyniad cefn un llawr to fflat a mewn lenwi ochr ynghyd â ffenestr gromen arfaethedig i flaen a chefn yr eiddo. **Dim gwrthwynebiad**.

**20. Pont Merched, Llangybi** – derbyniwyd gwybodaeth fod y bont bren wedi dirywio a malu. Clerc am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.

21. **Hysbysfyrddau angen staen arnynt** – Clerc am gael staen Ronseal quick dry satin mahogony, sef yr un lliw a ddefnyddiwyd yn wreiddiol fel gellir ei trin.

22. **Cynghorau Cymuned Llŷn** – Arfon Hughes – cyfarfod nesaf ar 19.03.2025 – penderfynu mis nesaf pwy fydd yn gallu mynychu.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau **06.03.2025**, yn Festri Pencaenewydd a drwy Zoom.